



Ein cyf:

At: Prif Swyddogion Cynllunio

4 Ionawr 2016

Annwyl Gyfaill,

Cyhoeddi Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)

Ar 4 Ionawr cafodd Argraffiad 8 o Bolisi Cynllunio Cymru (y Polisi) ei gyhoeddi. Mae'r argraffiad hwn o'r Polisi yn ymgorffori newidiadau i ddisgrifio darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg ac yn ymgorffori polisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar ddatblygu mwynau.

Mae'r argraffiad newydd o'r Polisi ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn <http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>.

Mae'r prif newidiadau fel a ganlyn:

Mae Pennod 4 wedi'i diwygio i gynnwys gwybodaeth am ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan gynnwys yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny, mae'n dangos sut mae amcanion polisi cynllunio Llywodraeth Cymru'n cyd-fynd â'r saith nod llesiant. Mae adran Gymraeg Pennod 4 hefyd wedi'i diweddarau i adlewyrchu'r darpariaethau a nodir yn adrannau 11 a 31 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

Y diwygiadau i adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw'r cam cyntaf yn y broses a nodwyd ym *Mhrosbectws y Polisi Cynllunio* a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015. Yn y tymor hwy, bydd y Polisi'n cael ei adnewyddu i gyd-fynd yn well â phenodau presennol nodau'r Ddeddf ond bwriedir cyhoeddi argraffiadau dilynol o'r Polisi yn ei ffurf gyfredol ddiwedd 2016 ac yn ystod haf 2017.

Mae Pennod 14 newydd wedi'i mewnosod i'r Polisi, gan integreiddio'r polisiâu cynllunio cenedlaethol ar ddatblygu mwynau sydd wedi'u nodi ar hyn o bryd ym *Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru* (2001). **Nid oes newidiadau** wedi'u gwneud i'r polisi cynlluniau mwynau presennol fel rhan o hyn. Ond yn sgil paratoi pennod newydd, bu'n rhaid gwneud mân waith diweddarau ac aildrafftio i adlewyrchu'r newidiadau terminolegol a gweinyddol diweddaraf i gyd-fynd â fformat y Polisi. Mae'r



defnydd o'r Bennod 14 newydd yn golygu bod *Polisi Cynllunio Mwynau Cymru* bellach wedi'i ganslo.

Yn sgil mabwysiadu rôl stiwardiaeth weithredol ar ran Llywodraeth Cymru, argymhellodd y ddogfen ymgynghori *Cynllunio Cadarnhaol* a gyhoeddwyd i gefnogi'r diwygiadau deddfwriaethol diweddar a'r rheini sydd ar y gweill y byddai angen adolygu ac ailddatgan y polisi cynllunio cenedlaethol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn sail glir a chyson ar gyfer penderfyniadau cynllunio. Roedd hyn yn cynnwys cyfuno 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' a 'Polisi Cynllunio Cymru' yn un ddogfen.


Mae'r argraffiad hwn yn cynnwys fersiwn ddiwygiedig o Bennod 2, a gyhoeddwyd y tro cyntaf ar 25 Medi 2015 ac sy'n ymwneud â gwelliannau a wnaed i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 a ddaeth i rym ar 28 Awst 2015. Mae'r bennod ddiwygiedig yn ystyried y newidiadau a wnaed i'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 2, 2015) a dileu *Polisi ar baratoi CDLlau: Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru*. Mae'r Rheoliadau diwygiedig a'r canllawiau cysylltiedig yn symleiddio'r gweithdrefnau a chynghor ar CDLau ac wedi'u hanelu at baratoi a diwygio'r cynlluniau'n gynt.

Ym Mhennod 3, sef Gwneud Penderfyniadau Cynllunio a'u Gorfodi, mae'r cyfeiriad (ym mharagraff 3.1.2) at bolisiâu Llywodraeth y DU fel ystyriaethau perthnasol wedi'i dynnu'n ôl. Mae'r newid hwn wedi'i wneud i egluro'r polisi ar benderfyniadau cynllunio Llywodraeth Cymru.

Ym Mhennod 9, Tai, mae paragraff 9.2.2 wedi'i ddiwygio i bwysleisio'n fwy pendant y dylai awdurdodau cynllunio lleol, wrth asesu eu gofynion tai ac wrth gynllunio darparu tai newydd, ystyried tystiolaeth leol a materion allweddol eraill megis yr hyn mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni, ochr yn ochr ag Amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar Aelwydydd. Cyfeirir hefyd at ystyriaethau iaith Gymraeg yn y cyd-destun hwn. Yn ogystal, rhoddir canllawiau pellach ar asesu elfennau amrywiol yr Amcanestyniadau ac ystyried a ydynt yn briodol i'w hardal.

Yn olaf, mae mân ddiweddariadau wedi'u gwneud er mwyn ystyried Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (ym Mhenodau 2 ac 8), er mwyn diweddarau ffeithiau a dogfennau cyfeirio, gan gynnwys Pennod 9 (Tai) i ystyried Deddf Tai (Cymru) 2014.

Yn gywir,



Neil Hemington
Y Prif Gynllunydd
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Yr Adran Cyfoeth Naturiol

